

Atodiad A: Ffurflen ganiatâd i alluogi dysgwyr gael mynediad at wasanaethau ychwanegol – templed

Ffurflen ganiatâd gwasanaethau ychwanegol Hwb

Mae plattform Hwb yn rhoi mynediad i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru at ystod eang o offer ac adnoddau digidol, dwyieithog sy'n cael eu hariannu'n ganolog, i gefnogi'r broses o drawsnewid arferion yn yr ystafell ddsbarth yn ddigidol. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli ac yn gweithredu plattform Hwb.

Mae'n rhaid i'r holl ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gael manylion mewngofnodi diogel ar gyfer plattform Hwb. Mae hyn oherwydd y bydd y profion darllen a rhifedd gorfodol, sy'n cael eu gwneud ar bapur ar hyn o bryd, yn symud ar-lein, a bydd yn rhaid i bob dysgwr eu cwblhau ar y plattform. Er mwyn rhoi manylion mewngofnodi diogel [i chi/i'ch plentyn], bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth sylfaenol at Lywodraeth Cymru. Bydd y manylion mewngofnodi yn caniatáu [i chi/i'ch plentyn] gwblhau'r asesiadau gorfodol ar-lein, sy'n cael eu galw'n 'asesiadau personol'.

I gael rhagor o wybodaeth am blattform Hwb a sut mae gwybodaeth [amdanoch chi/am eich plentyn] yn cael ei defnyddio, ewch i <https://hwb.gov.wales/privacy>.

I gael rhagor o wybodaeth am yr asesiadau personol ar-lein, ewch i <http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-tests?lang=cy&collection-2>

Gwasanaethau ychwanegol

Os byddwch chi'n cytuno i hynny, gall Llywodraeth Cymru roi mynediad [i chi/i'ch plentyn] at amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill, drwy Hwb. Mae'r rhain yn cynnwys amgylcheddau dysgu ar-lein fel Dosbarthiadau Hwb, Microsoft Office 365, Google for Education, ac offer ac adnoddau addysgol perthnasol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwasanaethau ychwanegol hyn ar gael [i'ch helpu chi/i helpu'ch plentyn] i gael mynediad at adnoddau addysgol. Mae'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu hariannu'n ganolog, ac nid yw'n costio i chi na'ch ysgol gael mynediad atynt na'u defnyddio.

Dim ond os byddwch chi'n llofnodi'r ffurflen isod i ddangos eich bod yn cytuno y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cewch fynediad at y gwasanaethau ychwanegol hyn.

Eich cytundeb

Os byddwch yn cytuno:

- byddwn yn dweud wrth Lywodraeth Cymru am sicrhau mynediad at y gwasanaethau ychwanegol
- bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth [amdanoch chi/am eich plentyn] â'i darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys Microsoft a Google Education, er mwyn gallu sicrhau mynediad at y gwasanaethau ychwanegol.

Os na fyddwch yn cytuno, byddwn yn dal i rannu gwybodaeth [amdanoch chi/am eich plentyn] â Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu manylion mewngofnodi diogel ar gyfer plattform Hwb, ond ni [fyddwch chi/fydd eich plentyn] yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau ychwanegol.

Os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r pennaeth yn [eich ysgol/ysgol eich plentyn].

Llofnod

A fydddech cystal â llofnodi'r ffurflen hon a nodi'r dyddiad os ydych chi'n cytuno â'r uchod.

Llofnod
Enw
Dyddiad
Enw'r dysgwr(wyr)	

